LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBOL IFANC

ENW: Lily Tonkin Wells

BRO: Aberteifi, Ceredigion

Dychwelyd i Gymru i greu ffilmiau dogfen

"Roedd fy rhieni eisiau i mi a fy chwiorydd gael addysg Gymraeg, felly cefais fy magu yn Aberteifi a mynychais Ysgol y Preseli," meddai Lily. "Ond ar ôl graddio, fe wnes i symud i Lundain i astudio celf. Wnes i erioed feddwl y byddwn i'n gallu gweithio ym maes ffilm yng Nghymru."

Bellach, mae Lily wedi dychwelyd i Geredigion ac yn prysur gwneud enw iddi ei hun fel cyfarwyddwr ffilmiau dogfen.

Ymddiddori mewn straeon lleol

Yn 2021, cafodd Lily gyllid gan Ŵyl Ffilmiau WOW i greu ei ffilm ddogfen gyntaf, She Sells Shellfish. Mae'r ffilm yn archwilio menywod a'r môr – o fferm fôr gynaliadwy ger Tyddewi i'r traddodiad o gasglu cocos ym Mhenclawdd. Cafodd y ffilm dderbyniad gwych pan gafodd ei dangos yn Aberystwyth, gan agor drysau iddi yn y diwydiant.

Sut mae Llwyddo'n Lleol wedi helpu?

Cafodd Lily swydd wedi'i chefnogi gan Llwyddo'n Lleol gyda'r cwmni fforest films yn Aberystwyth. "Fe wnes i weithio fel ymchwilydd, cynhyrchydd cynorthwyol, ac roedd cyfle i mi wneud edits a saethu ffilm."

Er bod y cyllid ar gyfer y swydd honno wedi dod i ben, mae Lily wedi aros yn Aberystwyth ac yn parhau i gydweithio â'r cwmni ar brosiectau newydd. "Mae Llwyddo'n Lleol wedi rhoi'r hyder i mi weld ffilm fel gyrfa ymarferol yng Nghymru, ac mae hynny'n anhygoel."

Beth nesaf?

Ar hyn o bryd, mae Lily yn cyd-gyfarwyddo'r ffilm Tŷ Unnos, sy'n dogfennu hanes bwthyn bach to gwellt ger Maenclochog. "Mae'n brosiect cyffrous sy'n cyfuno hanes a chelfyddyd," meddai.

"Dw i eisiau adeiladu fy ngyrfa fel cyfarwyddwr dogfen yma yng Nghymru. Mae cymaint o straeon anhygoel i'w hadrodd – ac mae gweithio yma yn golygu y gallaf gyfrannu at ddiwylliant fy ardal fy hun."

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government